# AROLWG AR DDATGANOLI COEDWIGAETH

## ADRODDIAD Y GRŴP CYDADRANNOL
## CRYNODEB GWEITHREDOL

Cynhaliwyd yr arolwg gan swyddogion o:

Swyddfa'r Cabinet (Cadeirydd Grŵp yr Arolwg)
Y Comisiwn Coedwigaeth
Adran yr Amgylchedd, Bwyd a Materion Cefn Gwlad
Adran Amgylchedd a Chefn Gwlad Gweithrediaeth yr Alban
Adran Amgylchedd a Chefn Gwlad Llywodraeth Cynulliad Cymru
Trysorlys Ei Mawrhydi
Gwasanaeth Fforest Gogledd Iwerddon.

# CRYNODEB GWEITHREDOL

## ADRAN 1 - CEFNDIR AC AMODAU GORCHWYL

1. Pan gyhoeddodd y Gweinidogion Coedwigaeth gasgliadau arolwg pum mlynedd asiantaeth weithredol Mentrau Coedwigaeth y Comisiwn Coedwigaeth ym mis Mai 2001, cyhoeddasant hefyd eu bwriad i adolygu'r trefniadau gweinyddol ar gyfer coedwigaeth yng ngoleuni profiad parhaus o'r strwythur a ddatganolwyd. Yn ystod yr hydref 2001 penderfynodd y Gweinidogion Coedwigaeth fynd ati gyda'r Arolwg a chytunwyd ar amodau gorchwyl, sef:

*"Arolygu'r trefniadau gweinyddol presennol ar gyfer sicrhau polisïau coedwigaeth cynaliadwy i Loegr, Yr Alban a Chymru ac ymrwymiadau rhyngwladol y DG, gan gynnwys opsiynau ar gyfer datganoli pellach ar y trefniadau hyn."*

2. Mae'r adroddiad hwn yn cyflwyno'r casgliadau a'r argymhellion a ddaw o'r Arolwg a gynhaliwyd gan Grŵp Cydadrannol o swyddogion Swyddfa'r Cabinet (Cadeirydd Grŵp yr Arolwg), Y Comisiwn Coedwigaeth, Adran yr Amgylchedd, Bwyd a Materion Cefn Gwlad; Adran Amgylchedd a Chefn Gwlad Gweithrediaeth yr Alban; Adran Amgylchedd a Chefn Gwlad Llywodraeth Cynulliad Cymru; Trysorlys Ei Mawrhydi a Gwasanaeth Fforest Gogledd Iwerddon.

## ADRAN 2 - Y TREFNIADAU GWEINYDDOL PRESENNOL AR GYFER COEDWIGAETH

3. Trosglwyddodd Llywodraeth y DG y cyfrifoldeb am goedwigaeth i Weinidogion yr Alban a Chynulliad Cenedlaethol Cymru yn 1999, yn rhan o raglen ehangach o ddiwygio cyfansoddiadol. Cadwodd Llywodraeth y DG y cyfrifoldeb am goedwigaeth yn Lloegr ac am faterion rhyngwladol. Mae trefniadau ar wahân yn weithredol yng Ngogledd Iwerddon, lle mae coedwigaeth wedi ei datganoli'n llwyr ers 1922.

4. Cyn datganoli, yr oedd datganiadau polisi domestig at goedwigaeth yn cael eu mynegi fel rheol ar lefel y DG neu Brydain Fawr. Yn ystod y blynyddoedd diweddar, y newid pwysicaf a ddigwyddodd ym maes polisi domestig ar goedwigaeth fu paratoi a chyhoeddi Strategaethau Coedwigaeth ar gyfer Lloegr, Yr Alban a Chymru. Yr oedd y strategaethau yn gosod allan flaenoriaethau a rhaglenni'r gweinyddiaethau a ddatganolwyd ar gyfer datblygu a gweithredu polisi coedwigaeth. Mae polisi coedwigaeth Gogledd Iwerddon yn cael ei adolygu ar hyn o bryd.

5. Y Comisiwn Coedwigaeth ar y cyd â'i asiantaethau gweithredol, Menter Coedwigaeth ac Ymchwil Coedwigaeth, yw'r brif adran yn llywodraeth Prydain Fawr sydd â'r cyfrifoldeb am roi cyngor i Weinidogion ar bolisi coedwigaeth, a'i weithredu ym mhob un o'r tair gwlad sydd wedi eu cynnwys ym Mhrydain Fawr. Yn dilyn datganoli, mae'r Comisiwn bellach yn cyflwyno'i adroddiadau ar wahân yn Lloegr, Yr Alban a Chymru i'r Ysgrifennydd Gwladol dros yr Amgylchedd, Bwyd a Materion Gwledig, Gweinidogion yr Alban, a Llywodraeth Cynulliad Cymru yn eu tro. Caiff y Comisiwn ei gyllido ar wahân gan Weinidogion yr Alban (i gwmpasu ei weithgareddau mewn perthynas â'r Alban), a chan Gynulliad Cenedlaethol Cymru (i gwmpasu ei weithgareddau mewn perthynas â Chymru). Mae'r cyllid a ddaw o Senedd y DG yn cwmpasu gweithgareddau'r Comisiwn mewn perthynas â Lloegr a'r meysydd hynny sydd naill ai'n neilltuedig neu, drwy gytundeb, yn weithredol ledled Prydain Fawr, megis iechyd planhigion, polisi rhyngwladol, gwaith ymchwil, pensiynau a chefnogaeth uniongyrchol i'r Comisiynwyr Coedwigaeth. Mae'r Comisiwn Coedwigaeth, fel Corff Cyhoeddus Trawsffiniol, wedi chwarae rhan gydgysylltiol ac wedi gweithio gyda'r gweinyddiaethau a ddatganolwyd ar nifer o faterion y cytunodd y gweinyddiaethau datganoliedig y byddai gweithio ar y cyd arnynt o fudd i bawb. Mae asiantaeth Gwasanaeth Fforest yr Adran Amaeth a Datblygiad Cefn Gwlad yn gyfrifol am swyddogaethau coedwigaeth tebyg yng Ngogledd Iwerddon.

6. Mae sefydlu Adrannau Materion Cefn Gwlad ym mhob gwlad, pob un â chylch gorchwyl polisi mwy integredig, wedi bod yn newid sylweddol ym mheirianwaith llywodraeth. Mae'r Adrannau Materion Cefn Gwlad yn gweithredu amrywiaeth o fesurau o dan y gwahanol Raglenni Datblygu Cefn Gwlad, gan gynnwys nifer sy'n berthnasol i amcanion polisi coedwigaeth, er enghraifft y Cynllun Premiwm Coetir Ffermydd.

## ADRAN 3 - YMGYNGHORIAD Â'R SAWL SYDD Â RHAN I'W CHWARAE

7. Cynhaliodd Grŵp yr Arolwg ymarfer ymgynghorol gan wahodd barn dros 600 o sefydliadau â diddordeb mewn coedwigaeth. Yr oedd y ddogfen ymgynghorol yn gwahodd barn ar ba un a fyddai gwelliannau'n bosibl yn y trefniadau gweinyddol presennol ar gyfer coedwigaeth ac, os felly, sut. Derbyniwyd wyth deg pump o ymatebion mewn pryd i'w cynnwys yn y dadansoddiad o'r ymatebion. Daeth chwe dosbarthiad bras o sylwadau a oedd yn berthnasol i'r Arolwg yn amlwg o ddadansoddiad manwl o'r ymatebion.

*(i) Effeithiolrwydd y trefniadau presennol.* Yn ôl sylwadau tua chwarter o'r sawl a ymatebodd, mae'r trefniadau presennol yn gweithio'n effeithiol a chynigiodd nifer o'r rhain ffyrdd o wella ar y trefniadau presennol.

*(ii) Cydgysylltu polisi a threfniadau ymdrin sy'n gyffredin i Brydain Fawr a'r DG.* Awgrymodd nifer o blith y sawl a ymatebodd fod angen lefel uchel o gydweithredu er mwyn sicrhau cysondeb yn y dull o ymdrin. Nododd nifer o'r ymatebwyr hyn hefyd y byddai'n bwysig i'r gweinyddiaethau datganoliedig fod â lefel uchel o fewnbwn i ddatblygiad polisïau rhyngwladol y DG; yn enwedig os mai'r gweinyddiaethau a ddatganolwyd oedd i fod â'r cyfrifoldeb am weithredu'r polisïau hyn. Cynigiodd tri-chwarter o'r ymatebwyr a gododd y mater hwn mai'r Comisiwn Coedwigaeth ddylai fod prif adran y llywodraeth ar gyfer y gwaith hwn. Yn absenoldeb y Comisiwn Coedwigaeth, cynigiodd llawer o'r rhai a ymatebodd y dylai corff tebyg i'r Cyd-bwyllgor Cadwraeth Natur gymryd ei le. Yr oedd y mater y cyfeiriwyd ato amlaf a drawsdorrai nifer o faterion eraill yn ymwneud â safonau a chanllawiau ategol ar gyfer polisi coedwigaeth gynaliadwy. Y profiad cadarnhaol o ddatblygu Safon Goedwigaeth y DG a Chynllun Sicrhau Coetir y DG oedd yr enghraifft a ddyfynnwyd amlaf i ddangos budd dull ymdrin o'r fath. Hefyd, yr oedd dull o ymdrin â iechyd planhigion mewn coedwigoedd a rheoli plâu a fyddai'n weithredol ledled y DG neu Brydain Fawr yn cael ei ystyried yn bwysig.

*(iii) Datganoli/integreiddio gydag Adrannau Materion Cefn Gwlad yn Lloegr, Yr Alban, a Chymru.* Dyma'r maes diddordeb y cyfeiriwyd ato amlaf a derbyniwyd 117 o sylwadau am hyn. Yr oedd y mwyafrif o'r ymatebwyr yn gweld posibiliadau ar gyfer mwy o integreiddio ar swyddogaethau polisi ac ymdrin gyda'r Adrannau Materion Cefn Gwlad yn Lloegr, Yr Alban a Chymru. Nododd tri deg pump o'r ymatebwyr y dylai coedwigaeth gael cefnogwr cadarn a gweladwy (y Comisiwn Coedwigaeth) oddi mewn i'r llywodraeth ac yr oeddent yn bryderus y gallai uno â'r Adrannau Cefn Gwlad arwain at wthio proffil coedwigaeth i'r cyrion. Galwodd ugain o'r sawl a ymatebodd am integreiddio pellach rhwng rhaglenni gweithredu ac annog coedwigaeth a rhai Adrannau'r Materion Cefn Gwlad.

*(iv) Rôl a threfn Menter Coedwigaeth.* Derbyniwyd tri deg tri o sylwadau a oedd yn gysylltiedig â Menter Coedwigaeth. Y materion y cyfeiriwyd atynt amlaf oedd yr angen i gryfhau'r llinellau atebolrwydd rhwng Menter Coedwigaeth a'r tair gweinyddiaeth a ddatganolwyd, a hefyd yr angen i gryfhau'r berthynas rhwng Menter Coedwigaeth a'r tair Swyddfa Genedlaethol.

*(v) Trefnu gwaith ymchwil coedwigaeth.* Yr oedd y mwyafrif o'r ymatebwyr a gododd y mater yn dadlau o blaid cadw gwaith ymchwil coedwigaeth yn weithgaredd i'r Comisiwn Coedwigaeth ledled y DG, ac yn credu y dylai'r trefniadau presennol barhau. Yr oedd nifer fechan o'r sawl a ymatebodd yn gofidio nad oedd gwaith ymchwil yng Nghymru yn derbyn y sylw priodol oherwydd diffyg gorsaf Gwaith Ymchwil Coedwigaeth yn y wlad honno. Yr oedd yna gydnabod y dylai trefniadau ar gyfer dynodi blaenoriaethau ymchwil a phrosesau comisiynu ddarparu cyfle i'r gweinyddiaethau a ddatganolwyd gael mwy o ddylanwad a mewnbwn, drwy gyfrwng Swyddfeydd Cenedlaethol y Comisiwn Coedwigaeth.

*vi) Adnoddau (h.y. cyllid) sydd ar gael ar gyfer coedwigaeth a'r Comisiwn Coedwigaeth.* Y farn a fynegwyd amlaf oedd bod yr adnoddau sydd ar gael ar hyn o bryd ar gyfer coedwigaeth yn annigonol a olygai bod tangyflawni ar amcanion polisi. Yr oedd yna bryderon hefyd bod yna gyfyngu afresymegol ar y gallu i sicrhau cynnyrch coedwigaeth gynaliadwy, yn enwedig cynnyrch cymdeithasol ac amgylcheddol, oblegid y cysylltiad â'r incwm am goed a werthir gan Fenter Coedwigaeth.

## ADRAN 4 - MATERION ALLWEDDOL

8. Yn seiliedig ar ddadansoddiad o'r trefniadau gweinyddol presennol a'r ymatebion a gafwyd i'r ymgynghoriad â'r sawl sydd â rhan i'w chwarae, dynododd Grŵp yr Arolwg bedwar o faterion allweddol, sef:

*(i) Y cydbwysedd rhwng trefniadau ymdrin y gwledydd a'r rhai sy'n gyffredin i Brydain Fawr a'r DG.* Mae nifer fechan o ddatganiadau polisi coedwigaeth, a Safon Goedwigaeth y DG, yn rhagddyddio datganoli polisi coedwigaeth. Maent yn para'n weithredol drwy drefniant â'r gweinyddiaethau a ddatganolwyd. Fodd bynnag, nododd Grŵp yr Arolwg:

- fod ansicrwydd yn bodoli ynghylch y mecanwaith ar gyfer ymwneud â'r gweinyddiaethau a ddatganolwyd.

- nad oedd yn eglur pwy oedd yn gyfrifol yn y pen draw am sicrhau bod buddiannau'r gwledydd unigol wedi cael ystyriaeth ddigonol wrth lunio safonau neu gytundebau sy'n gyffredin i'r DG.

*(ii) Trefniadau gweinyddol ar gyfer rheoli'r ystad goedwigaeth yng nghyd-destun datganoli.* Nododd Grŵp yr Arolwg nifer o faterion sy'n berthnasol i ystyriaeth o'r trefniadau gweinyddol ar gyfer Menter Coedwigaeth. Maent yn cynnwys:

- Y cydbwysedd rhwng yr arbedion maint a gyflawnir drwy gyfrwng y trefniadau presennol a gwerth y synergeddau cynyddol y gellid eu cyflawni drwy gysylltiad agosach â'r Adrannau Materion Cefn Gwlad.

- Pryderon ynghylch y gwrthdaro buddiannau a allai godi rhwng cyfrifoldeb y Comisiwn Coedwigaeth am reoli'r diwydiant coedwigaeth a'i gyfrifoldeb am Fenter Coedwigaeth fel y gweithredwr sengl mwyaf yn y farchnad.

- Cyfyngiadau ar allu Menter Coedwigaeth i ffurfio amrywiaeth eang o bartneriaethau oherwydd y modd y caiff y Comisiynwyr Coedwigaeth eu cyfyngu gan y Deddfau Coedwigaeth.

- Mewn termau gweinyddol, mae Cyfarwyddwyr Tiriogaethol Menter Coedwigaeth yn atebol i Brif Weithredwr yr asiantaeth ac mae eu llinellau cyfathrebu a'u cyfrifoldeb i Weinidogion yn y gweinyddiaethau a ddatganolwyd yn aneglur.

- Tensiynau rhwng amcanion corfforaethol Menter Coedwigaeth (DG) a strategaethau coedwigaeth y gwledydd.

*(iii) Trefniadau gweinyddol ar gyfer rheoli gwaith ymchwil coedwigaeth yng nghyd-destun datganoli.* Nododd Grŵp yr Arolwg bod angen:

- Cryfhau'r trefniadau ar gyfer cael y gweinyddiaethau a ddatganolwyd i ymwneud â gosod blaenoriaethau a threfnu rhaglenni y gwaith ymchwil.

- Sicrhau bod pob allbwn a ddaw o waith ymchwil yn amlygu eu perthnasedd i'r gwledydd, a photensial y defnydd y gellid ei wneud ohonynt yn y gwledydd.

*(iv) Trefniadau gweinyddu fframweithiau rheoli ac annog ar gyfer coedwigaeth yng nghyd-destun datganoli.* O'n dadansoddiad ni, dynododd y Grŵp y materion canlynol:

- Symud ymlaen i sefydlu cysylltiadau rhwng y Comisiwn Coedwigaeth â'r gweinyddiaethau a ddatganolwyd, er mwyn cefnogi adolygiadau o fentrau sy'n cael eu mireinio i gwrdd â blaenoriaethau strategaethau coedwigaeth y gwledydd, ac i adolygu a diweddaru systemau TG Cynllun Grantiau Coetir y Comisiwn. O'u cymryd gyda'i gilydd, mae'r rhain yn hybu dull mwy integredig o gefnogi coedwigaeth.

- Yn Yr Alban ac yng Nghymru, mae penderfyniadau ynghylch y blaenoriaethau cyllidol ar gyfer coedwigaeth yn cael eu cymryd erbyn hyn mewn modd mwy integredig. Nid yw'r trefniadau yn Lloegr wedi newid ers datganoli. Serch hynny, hyd yn oed yn Yr Alban a Chymru, mae yna gonsensws bod yr integreiddio yn cael ei lesteirio, neu'n cael ei wneud yn fwy biwrocrataidd, oherwydd bodolaeth y Comisiwn Coedwigaeth fel Corff Cyhoeddus Trawsffiniol ar wahân.

## ADRAN 5 - CASGLIADAU AC ARGYMHELLION

9. Ar sail ein dadansoddiad, a barn y mwyafrif o'r sawl a ymatebodd i'r ymgynghoriad, **daethom i'r casgliad y gallai'r trefniadau presennol gael eu gwella'n sylweddol wedi datganoli, felly mae angen eu diweddaru ar unwaith.** Yn ganolog i hyn mae'r angen i gyflawni integreiddio pellach rhwng coedwigaeth a gwaith polisi arall ar faterion cefn gwlad, tra bod dull mwy cydweithredol yn cael ei gynnal ar yr un pryd tuag at faterion cyffredin megis safonau coedwigaeth.

10. Y cwestiwn allweddol i Weinidogion yw a ddylai coedwigaeth gael ei integreiddio'n llawn â'u cyfrifoldebau ehangach ar faterion cefn gwlad, neu a ddylid cynnal proffil gwahaniaethol i goedwigaeth oddi mewn i'r llywodraeth. Os ydynt yn dymuno sicrhau integreiddio'r cyfrifoldebau am goedwigaeth a materion cefn gwlad yn llwyr, yna dim ond drwy ddeddfwriaeth y gellir cyflawni hyn. Fel arall, os ydynt yn dymuno cynnal proffil gwahaniaethol i goedwigaeth oddi mewn i'r llywodraeth, yna ddull gweinyddol o integreiddio mwy ar goedwigaeth a materion cefn gwlad fyddai'r ffordd orau o weithredu.

**Newid drwy Weithredu Deddfwriaethol**

11. Byddai hyn yn golygu diddymu'r Comisiwn Coedwigaeth drwy ddileu'r Deddfau Coedwigaeth a throsglwyddo holl swyddogaethau'r Comisiynwyr. Gellid trosglwyddo'r rhain yn gyfan gwbl, neu yn rhannol, i'r Ysgrifennydd Gwladol dros yr Amgylchedd, Bwyd a Materion Gwledig, i Gynulliad Cenedlaethol Cymru ac i Weinidogion yr Alban neu i gyrff, er enghraifft, Cyrff Cyhoeddus Anadrannol, a allai gael eu sefydlu i dderbyn rhai neu'r cyfan o'r pwerau. Byddai Menter Coedwigaeth ac Ymchwil Coedwigaeth yn cael eu diddymu hefyd, a gallai'r gweinyddiaethau a ddatganolwyd bennu'r trefniadau ar gyfer cynnal eu swyddogaethau. Ni fyddai angen cael yr un trefniadau ym mhob un o'r tair gwlad.

12. Mae yna nifer o feysydd lle mae angen diweddaru a moderneiddio deddfwriaeth goedwigaeth. Mae'r rhain yn cynnwys y cyfyngiadau ar ryddid Menter Coedwigaeth i ffurfio partneriaethau gyda sefydliadau eraill. Yn fwy sylfaenol, mae deddfwriaeth coedwigaeth yn rhagddyddio egwyddorion coedwigaeth gynaliadwy, ac nid yw pwerau'r Comisiynwyr yn adlewyrchu amcanion polisi coedwigaeth yr oes fodern. Mater yw hwn sydd y tu hwnt i derfynau'r Arolwg hwn ac felly mae angen i Weinidogion ystyried a ddylid moderneiddio'r ddeddfwriaeth goedwigaeth bresennol ai peidio.

13. ***O ystyried yr amser sy'n angenrheidiol i gwblhau unrhyw broses ddeddfwriaethol, yr angen posibl i foderneiddio deddfwriaeth goedwigaeth sydd y tu hwnt i derfynau'r Arolwg hwn, a'r gefnogaeth sydd i gynnal proffil gwahaniaethol i goedwigaeth oddi mewn i'r llywodraeth, nid ydym yn argymell y dull deddfwriaethol ar hyn o bryd. Serch hynny, efallai y byddai Gweinidogion yn dymuno cadw'r dewis hwn mewn golwg.*** (**Argymhelliad 1, paragraff 5.12.**)

**Newid drwy Weithredu Gweinyddol**

14. Drwy ddewis yr opsiwn hwn byddai'r Comisiwn Coedwigaeth yn gweithredu fel sefydliad a ddatganolwyd. Byddai cryn symud ar swyddogaethau o'r canol. Byddai'r Swyddfeydd Cenedlaethol yn cael eu cryfhau'n sylweddol ac yn gweithredu fel adrannau coedwigaeth, yn darparu cyngor i'r gweinyddiaethau yn Lloegr, Yr Alban a Chymru ynghylch polisi a gweithredu polisi. Mae pecyn o fesurau, na fyddai'n llesteirio datblygiad deddfwriaeth yn y dyfodol, ar gael er mwyn cyflawni cynnydd sylweddol yn yr integreiddio rhwng y Comisiwn Coedwigaeth a'r Adrannau Materion Cefn Gwlad. Mae'n cynnwys:

*(i) Pwyllgor Gweinidogion.* Nid yw'r trefniadau presennol yn darparu cyfleoedd digonol i'r gweinyddiaethau a ddatganolwyd ymwneud â ffurfio polisi rhyngwladol a chydweithio ar faterion sydd o ddiddordeb cyffredin. Dengys profiad bod yna faterion (er enghraifft Safon Goedwigaeth y DG) y gall y gweinyddiaethau a ddatganolwyd gydweithio arnynt, a rhannu profiad er budd y naill a'r llall. Fodd bynnag, nid oes yna fecanweithiau ffurfiol yn weithredol ar hyn o bryd er mwyn cael cytundeb ar ba faterion y dylid ymdrin â hwy ar y cyd a'u cadw o dan sylw adolygol. ***Dylid sefydlu Pwyllgor newydd i Weinidogion, i ddwyn Gweinidogion Coedwigaeth ynghyd o Loegr, Yr Alban, Cymru a Gogledd Iwerddon. Dylai gwrdd yn rheolaidd i oruchwylio'r trefniadau newydd ynghyd ag ymdrin â materion rhyngwladol (pwerau nas datganolwyd) a chytuno ar unrhyw faterion coedwigaeth sy'n trawsdorri lle byddai cydweithio arnynt yn fuddiol. Y pwyllgor fyddai'n gyfrifol am fonitro gweithrediad ac effeithiolrwydd y trefniadau gweinyddol.*** (**Argymhelliad 2, paragraff 5.19.**)

***Dylid ehangu aelodaeth Grŵp Coedwigaeth Whitehall i gynnwys cynrychiolaeth o Weithrediaeth yr Alban a Llywodraeth Cynulliad Cymru.*** **(Argymhelliad 3, paragraff 5.20.)**

*(ii) Integreiddio pellach ar Goedwigaeth a Materion Cefn Gwlad i'w dwyn yn nes at ei gilydd.* Yn dilyn datganoli yn 1999, datblygodd dolenni cyswllt da rhwng y Comisiwn Coedwigaeth a'r Adrannau Materion Cefn Gwlad. Fodd bynnag, nid yw llinellau cyfathrebu a chyfrifoldeb mor eglur ag y dylent fod ac mae yna gred bod yr arweiniad ar lawer o faterion polisi domestig yn dal i ddod o bencadlys y Comisiwn Coedwigaeth yng Nghaeredin ac nid drwy gyfrwng ei Swyddfeydd Cenedlaethol. Mae yna le i gryfhau a ffurfioli'r berthynas sy'n bodoli er mwyn ei gwneud yn eglur mai nid dyna beth sy'n digwydd bellach. ***Mae Grŵp yr Arolwg yn argymell integreiddio datblygu a gweithredu polisi - hyd y gellir heb ddefnyddio deddfwriaeth - yn Swyddfeydd Cenedlaethol y Comisiwn Coedwigaeth a'r Adrannau Materion Cefn Gwlad yn Lloegr, Yr Alban a Chymru. Byddai Concordatiau rhwng pob un o Swyddfeydd Cenedlaethol y Comisiwn a'r Adrannau Materion Cefn Gwlad yn sail i'r trefniadau newydd. Câi manylion y trefniadau gwaith newydd a chynnwys y Concordatiau eu paratoi gan yr Adrannau Materion Cefn Gwlad yn unigol a Swyddfa Genedlaethol berthnasol y Comisiwn Coedwigaeth.*** **(Argymhelliad 4, paragraff 5.23.)**

*(iii) Menter Coedwigaeth.* Ar hyn o bryd, mae Menter Coedwigaeth yn gweithio fel asiantaeth weithredol y Comisiwn ledled Prydain Fawr. Yr oedd yr arolwg pum mlynedd ddiweddar ar Fenter Coedwigaeth yn cymryd yn ganiataol y byddai'r Comisiwn Coedwigaeth yn para i weithio ar y sail hon ledled Prydain Fawr. O wybod bod y newidiadau a gynigwyd am sicrhau mwy o integreiddio rhwng y Comisiwn Coedwigaeth a'r Adrannau Materion Cefn Gwlad, credwn y byddai cadw Menter Coedwigaeth yn gorff gweithredol ledled Prydain Fawr, â'i Brif Weithredwr ym mhencadlys y Comisiwn yng Nghaeredin, yn groes i'r strwythur newydd hwn. ***Yr ydym yn argymell y dylai Menter Coedwigaeth, sy'n cael ei reoli ar hyn o bryd fel asiantaeth weithredol ledled Prydain Fawr, gael ei rhannu'n dair. Byddai cyrff Menter Coedwigaeth ar wahân yn cael eu sefydlu ym mhob gwlad, gyda phob un ohonynt yn atebol drwy gyfrwng Swyddfeydd Cenedlaethol y Comisiwn i'r gweinyddiaethau yn Lloegr, Yr Alban, a Chymru, yn lle bod yn atebol i'r Prif Weithredwr yng Nghaeredin.*** **(Argymhelliad 5, paragraff 5.25.)**

*(iv) Ymchwil Coedwigaeth.* Yr ydym wedi cadarnhau casgliad arolwg pum mlynedd asiantaeth Ymchwil Coedwigaeth bod angen cryfhau'r trefniadau ar gyfer cael y gweinyddiaethau a ddatganolwyd i ymwneud â gosod blaenoriaethau a threfnu rhaglenni y gwaith ymchwil. At hyn, er bod llawer o'r allbwn o waith ymchwil coedwigaeth yn berthnasol ledled y DG, mae angen sicrhau bod pob allbwn yn amlygu eu perthnasedd a photensial y defnydd ohonynt ym mhob gwlad. ***Dylai Ymchwil Coedwigaeth bara'n asiantaeth i'r Comisiwn Coedwigaeth ledled Prydain Fawr ond dylid gwneud trefniadau newydd, yn rhoi rôl bwysicach i'r weinyddiaeth a ddatganolwyd, drwy gyfrwng y Swyddfeydd Cenedlaethol yn Lloegr, Yr Alban a Chymru, o ran pennu blaenoriaethau ymchwil a dynodi rhaglenni, a hefyd drwy sicrhau cymeradwyaeth y Gweinidogion Coedwigaeth ar y cyd i'r strategaeth ymchwil a'r rhaglen ymchwil flynyddol. Byddai hyn yn caniatau muwy o integreiddio ar waith yr asiantaeth, gyda gwaith ymchwil gysylltiedig ym mhob gwlad, a chydgysylltiad â'r gwaith yng Ngogledd Iwerddon. Dylid ystyried gweithrediad yr argymhelliad hwn, gan gynnwys yr opsiwn o ariannu traeanol ar gyllideb ymchwil y Comisiwn Coedwigaeth, yn ystod Cam 2 Arolwg Pum Mlynedd Ymchwil Coedwigaeth yng ngoleuni'r newidiadau eraill a argymhellwyd yn yr Adroddiad hwn*** **(Argymhelliad 6, paragraff 5.27.)**

*(v) Bwrdd y Comisiynwyr Coedwigaeth.* Yn dilyn datganoli, mae gofyn bellach i'r Comisiynwyr Coedwigaeth gyflawni eu swyddogaethau ar wahân yn Lloegr, Yr Alban a Chymru. Mae'r Comisiynwyr yn atebol, ac yn cyflwyno adroddiadau, ar wahân i'r Gweinidogion ym mhob gwlad ac mae eu gwaith hefyd yn amodol ar bwerau cyfeiriol Gweinidogion y DG, Gweinidogion yr Alban a Chynulliad Cenedlaethol Cymru ar wahân i'w gilydd. Cred Grŵp yr Arolwg y dylid cryfhau'r gynrychiolaeth o bob gwlad, gyda phennaeth pob un o Swyddfeydd Cenedlaethol y Comisiwn yn Lloegr, Yr Alban a Chymru yn cael eu penodi i'r Bwrdd fel Comisiynwyr gweithredol. Ystyria'r Grŵp ymhellach y dylid cryfhau'r trefniadau ar gyfer penodi Comisiynwyr anweithredol i gynrychioli buddiannau'r Alban a Chymru drwy eithrio Gweinidogion San Steffan o'r broses enwebu. ***Mae'r Grŵp yn argymell y dylai'r Comisiynwyr Gweithredol, wedi'r newidiadau hyn, ddod yn Brif Gyfarwyddwr a Phenaethiaid y Swyddfeydd Cenedlaethol.*** **(Argymhelliad 7, paragraff 5.31.)**

*(vi) Atebolrwydd.* Drwy gyfrwng ein hargymellion, byddai Swyddfeydd Cenedlaethol y Comisiwn Coedwigaeth yn atebol i Senedd San Steffan, Gweinidogion yr Alban, a Llywodraeth Cynulliad Cymru drwy gyfrwng Cynlluniau Corfforaethol, Cyfrifon ac Adroddiadau Blynyddol ar wahân ar gyfer pob un o'r gwledydd. Byddai'r rhain yn ymestyn i gwmpasu gwaith yr asiantaeth Menter Coedwigaeth newydd sydd yn yr arfaeth ar gyfer pob gwlad. Byddai'r prif swyddog ym mhob un o'r Swyddfeydd Cenedlaethol yn cael ei benodi'n Swyddog Cyfrifeg Ychwanegol er mwyn amlygu llinell uniongyrchol atebolrwydd i'r senedd berthnasol.

*(vii) Y Berthynas rhwng Swyddfeydd Cenedlaethol y Comisiwn Coedwigaeth a'r Pencadlys yng Nghaeredin.* Byddai'r Comisiwn Coedwigaeth (yn gweithredu fel Corff Cyhoeddus Trawsffiniol) yn darparu cyngor ynghylch polisi a chefnogaeth ar faterion rhyngwladol (neilltuedig) ac unrhyw faes lle cytunwyd gan Bwyllgor y Gweinidogion ar ddull ymwneud sy'n trawsdorri ledled y DG neu Brydain Fawr (er enghraifft, safonau coedwigaeth gynaliadwy, gwaith ymchwil coedwigaeth). Ceir gwelliant yn rôl y tair Swyddfa Genedlaethol drwy drosglwyddo swyddogaethau o'r canol (yn fwyaf arbennig o ganlyniad i draeanu Menter Coedwigaeth ond hefyd drwy drosglwyddo polisi/rheolaeth ariannol a'r swyddogaethau ysgrifenyddol).

*(viii) Grwpiau Trawsadrannol.* Byddai Adran yr Amgylchedd, Bwyd a Materion Cefn Gwlad a'r gweinyddiaethau a ddatganolwyd i gyd yn aelodau o'r holl grwpiau coedwigaeth trawsadrannol (er enghraifft, Grŵp Coedwigaeth Whitehall, Pwyllgor Cydlynu Gwaith Ymchwil Coedwigaeth). Yn yr un modd, byddai Swyddfeydd Cenedlaethol y Comisiwn Coedwigaeth yn cymryd rhan yn yr holl grwpiau sy'n trawsdorri oddi mewn i Adran yr Amgylchedd, Bwyd a Materion Cefn Gwlad a'r gweinyddiaethau a ddatganolwyd.

**Y Graddfeydd Amser ar gyfer Rhoi Cynlluniau ar waith**

15. Byddai gweithredu'r dull deddfwriaethol a ystyriwyd ym mharagraffau 11 hyd at 13 uchod yn dibynnu ar yr amser fyddai ar gael ar yr amserlenni Seneddol perthnasol. Gellid dechrau rhoi'r dull gweinyddol ar waith yn gyfan gwbl bron ar unwaith ond, er mwyn lleihau costau'r cyfnod pontio (er enghraifft, symud staff o Bencadlys y Comisiwn yng Nghaeredin i'r Swyddfeydd Cenedlaethol) byddai modd cyflwyno'r dull gweinyddu hwn yn raddol dros gyfnod o amser.